RHYBUDD O GYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORYDD JUSTINE EVANS AR RAN Y GRŴP CEIDWADOL I'W YSTYRIED GAN Y CYNGOR LLAWN.

1) Bod CSDd yn cynnal astudiaeth dichonolrwydd Achos Busnes Llawn i adfer adeiladau Ciosg Promenâd y Rhyl, sy'n debyg i'r ciosgau sydd newydd gau, ac sydd ar fin cael eu dymchwel er mwyn hwyluso Cynllun Amddiffyn rhag Llifogydd Canol y Rhyl.

2) Bod CSDd yn cynnal ymarfer caffael ar adeg priodol, a fyddai'n agored, ac yn cynnwys y sector Cyhoeddus a Phreifat sydd â diddordeb, gyda'r bwriad o gael tenantiaid newydd i'r Ciosgau, a fydd yn darparu cynnig amwynder twristiaeth a lleol tebyg sydd eisoes wedi bod ar bromenâd Canol y Rhyl ers cenedlaethau.

3) Bod CSDd yn archwilio cyfleoedd cyllid i hwyluso ailadeiladu yr un math o giosgau neu debyg o fewn rheswm ar y safle presennol.

DS -

Mae'r cynnig hwn wedi cael ei lunio yn dilyn protest cyhoeddus yn y Rhyl a'r cyffiniau ar ôl adroddiadau ar y cyfryngau cymdeithasol yn manylu bod Ciosgau Promenâd Canol y Rhyl wedi cau heb gyfeiriad clir ar beth fydd yn eu disodli ar ôl cwblhau Cynllun Amddiffyn rhag Llifogydd Canol y Rhyl.